## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40 (CYLCHFAN PONT LESNEVEN, CAERFYRDDIN I GYLCHFAN SANCLÊR, SANCLÊR, SIR GAERFYRDDIN) (GWAHARDD TROEON PEDOL) 2023

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 1(1), 2(1), 2(2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a pharagraff 27(1) o Atodlen 9 iddi. Daw'r Gorchymyn i rym ar 22 Rhagfyr 2023.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd pob cerbyd sy'n teithio tua'r gorllewin a thua'r dwyrain ar gefnffordd yr A40 rhag gwneud troeon pedol drwy'r bylchau yn llain ganol y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr orllewinol cylchfan Pont Lesneven, Caerfyrddin hyd at ei chyffordd ag ochr ddwyreiniol cylchfan Sanclêr, Sanclêr, Sir Gaerfyrddin. Mae'r Gorchymyn newydd yn dirymu Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Caerfyrddin – Sanclêr, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Troeon Pedol) 1997 (O.S. 1997/1935).

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 20 Rhagfyr 2023 ymlaen, gellir gweld copi o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn a wnaed a'r plan yn rhad ac am ddim yn ystod oriau agor arferol yn Llyfrgell Caerfyrddin, Stryd San Pedr, Caerfyrddin SA31 1LN a Llyfrgell Sanclêr, Y Gat, Heol y Pentre, Sanclêr SA33 4AA. Gellir gweld y dogfennau hefyd ar wefan Llywodraeth Cymru yn https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim drwy anfon e-bost i Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru neu drwy ysgrifennu at: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ, gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1473048.

Os yw unrhyw berson yn dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn, neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo, ar y seiliau:

a. nad yw o fewn pwerau perthnasol Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984; neu
b. na chydymffurfiwyd ag unrhyw un neu ragor o'r gofynion perthnasol,

caiff y person hwnnw, o fewn 6 wythnos i 20 Rhagfyr 2023, wneud cais i'r Uchel Lys i atal dros dro neu ddiddymu'r Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo.

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A40 TRUNK ROAD (PONT LESNEVEN ROUNDABOUT, CARMARTHEN TO ST CLEARS ROUNDABOUT, ST CLEARS, CARMARTHENSHIRE) (PROHIBITION OF U-TURNS) ORDER 2023

The Welsh Ministers have made an Order in exercise of their powers under sections 1(1), 2(1), 2(2) and 124(1)(d) of, and paragraph 27(1) of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984. The Order comes into force on 22 December 2023.

The effect of the Order is to prohibit all westbound and eastbound vehicles travelling on the A40 trunk road from making U-turns through the gaps in the central reservation of the length of the trunk road that extends from its junction with the western side of Pont Lesneven roundabout, Carmarthen to its junction with the eastern side of St Clears roundabout, St Clears, Carmarthenshire. The A40 Trunk Road (Carmarthen – St Clears, Carmarthenshire) (Prohibition of U-Turns) Order 1997 (S.I. 1997/1935) is revoked by the new Order.

During a period of 6 weeks from 20 December 2023, a copy of this Notice, the made Order and plan may be inspected, free of charge, during normal opening at Carmarthen Library, St Peter's Street, Carmarthen SA31 1LN and St Clears Library, The Gate, Pentre Road, St Clears SA33 4AA. The documents can also be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders or obtained free of charge by e-mailing TransportOrdersBranch@gov.wales or writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ, quoting reference number qA1473048.

If any person desires to question the validity of the Order, or of any provisions contained therein on the grounds:

a. that it is not within the relevant powers of the Road Traffic Regulation Act 1984; or
b. that any of the relevant requirements have not been complied with,

that person may, within 6 weeks of 20 December 2023, apply to the High Court for the suspension or quashing of the Order or of any provision contained therein.

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government